## <u>Testun perswâd</u>

## <u>Araith - 'Y Daith i'r Dyfodol'</u>

Bobol Tryweryn. Rydyn ni yma heddi i esbonio'r sefyllfa i chi. Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, mae dinasoedd ar hyd a lled Prydain wedi dioddef, ac yn ceisio ail adeiladu, er lles y dyfodol. Yn sgil hynny, mae mwy o bobl yn byw ac yn gweithio'n galed i ddatblygu dinas newydd lewyrchus. Bydd hyn yn ychwanegu at les yr economi, bydd diweithdra yn lleihau a busnesau yn ffynnu.

Does dim dwywaith, mae rôl gyda chi yn hyn i gyd! Drwy gydweithio, gallwn ddarparu dŵr glan i'r gweithwyr a'r teuluoedd niferus sydd yn Lerpwl yn barod a'r rhai sydd i ddod. Yn bendant, bydd pawb yn elwa o'r fenter gyffrous yma.

Rydym yn awyddus i wneud y gorau er lles y dyfodol. Gwnawn dalu'n hael am y tir a thalu iawndal am y symud. Gwnawn adeiladu tai modern yn Frongoch i'r rhai a fydd yn ddigartref ac ysgol newydd i'ch plant. Gwnawn sicrhau bod y pentrefi cyfagos yn ddiogel.

Ydych chi am edrych i'r dyfodol? Ydych chi am fanteisio ar y cyfle i symud ymlaen? Ydych chi am helpu eich cyd-ddynion mewn cyfnod o gyfyng-gyngor?

Mae digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf yn ein gorfodi ni i gyd i addasu, i ddatblygu ac i gydweithio wrth gynllunio i'r dyfodol. Gyda'n gilydd gallwn ddiwallu anghenion pobl Lerpwl a rhoi cyfle cyffrous am ddechreuad newydd i bobl Capel Celyn.